


Gwallau Cyffredin

BA Addysg

DR NIA COLE JONES

17.03.2020



DYLANWAD Y SAESNEG

Sut gallwch wella'r rhain?

- Rhannu mewn i grwpiau
- Cael y gorau allan o dasg
- Rhaid i'r plant gadw ar dasg
- Gweithio allan beth oedd yn gweithio
- Gwaith effeithiol yn cymryd lle
- Cymryd nodiadau
- Plant yn gweithio at eu lefel nhw
- Plant yn rhoi i fyny
- Dal i fyny



DYLANWAD Y SAESNEG

Beth am 'the...of' yn Saesneg?

- Y pwysigrwydd o wahaniaethu
- Ymwybodol o'r effaith o wahaniaethu
- Pwysigrwydd gwahaniaethu
- Effaith gwahaniaethu



EB/EG

Ydy'r rhain yn gywir? Beth yw'r gwall?

- Pa lefel oedden nhw am ei gyflawni
 - Y dasg roeddwn wedi ei dargedu
 - Y plant oedd yn gweithio ar lefel ei gallu
 - Y gwaith yn llifo i'w isymwybod hi
 - Y lefel o gefnogaeth sydd eu hangen arnynt
 - Tasg sy'n cael ei gyflwyno iddynt
- Pa lefel oedden nhw am ei chyflawni
 - Y dasg roeddwn wedi ei thargedu
 - Y plant oedd yn gweithio ar lefel eu gallu
 - Y gwaith yn llifo i'w hisymwybod hi
 - Y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt
 - Tasg sy'n cael ei chyflwyno iddynt

EB/EG

Ydy'r rhain yn gywir? Beth yw'r gwall?

- Sicrhau bod y plant â diddordeb yn ei waith
- Tasg wedi ei anelu at y lefel cywir
- Sicrhau bod y plant â diddordeb yn eu gwaith
- Tasg wedi ei hanelu at y lefel gywir



BERFAU

Ydy'r rhain yn gywir? Beth yw'r gwall?

- Teimlaf roedd hyn yn llwyddiannus
 - Credaf bod angen addasu
 - Llwyddodd oherwydd roedd y plant yn gweithio
 - Gwelir fod cynnydd yn lefel y plant
- Teimlaf **fod** hyn yn llwyddiannus
 - Credaf **fod** angen addasu
 - Llwyddodd oherwydd **bod** y plant yn gweithio
 - Gwelir **bod** cynnydd yn lefel y plant

GEIRFA

Ydy'r rhain yn gywir? Beth yw'r gwall?

- Rwyf wedi profiadu hyn
- Wrth adlewyrchu ar fy mhrofiad, gwelais
- Anghenion addysgol yn cael eu cwrdd
- Gosodiad ysgol
- Rwyf wedi **profi** hyn
- Wrth **fyfyr**io ar fy mhrofiad, gwelais
- **Cwrdd** ag anghenion addysgol
- **Lleoliad** ysgol

ARDDODIAID

Ydy'r rhain yn gywir? Beth yw'r gwall?

- | | |
|---|---|
| • Wrth i'r wythnos mynd yn ei blaen | • Wrth i'r wythnos f ynd yn ei blaen |
| • Gan i'r plant bod yn gwrtais | • Gan i'r plant f od yn gwrtais |
| • Galluogwyd i unigolion gweithredu | • Galluogwyd i unigolion _ weithredu |
| • Rhaid i'r plant bod yn gyfforddus | • Rhaid i'r plant f od yn gyfforddus |
| • Gofyn i'r plant gweithio'n annibynnol | • Gofyn i'r plant _ weithio'n annibynnol |



Cywirwch y gwallau!

BA Addysg BI 2. Sesiwn 17/3/2020 Cywirwch y gwallau

1. Yn ystod fy mhrofiad yn addysgu mewn ddosbarth blwyddyn tri a pedwar, dadansoddaf wers thema oedd yn datblygu sgiliau lythrennedd y disgyblion.
2. Yn y traethawd, byddaf yn sôn am fy cryfderau a fy gwendidau.
3. Penderfynaf ar y tasg gan mai thema y dosbarth oedd 'Yr Oes Fictoria'.
4. Meddyliais am dasg hwylus i'r disgyblion ei gwblhau.
5. Er mwyn sicrhau bod y dasg yn gael ei gyflawni, roedd rhaid i'r disgyblion tefnu strwythur a ddisgrifiad cyn fwrw ati i ysgrifennu llythyr ei hunain.
6. Pan yn cyflawni'r dasg, roedd rhaid i'r dysgyblion gweithio mewn grwpiau ffocws.
7. Roedd y disgyblion yn cael ei gyflwyno i'r iaith.
8. Esboniodd ei bod yn hynnod o bwysig i modelu patrymau brawddeg cywir.
9. Cytunai'r athrawes bod y wers yn lwyddiannus ac bod y plant wedi mwynhau.
10. Heriais y disgyblion gan gofyn cwestiynnau thematig.
11. Roedd y dosbarth yn ddosbath gallu gymys o dair l bedwar oed.
12. Gofynnir i'r plant ymateb a'r lafar.
13. Cyflwynaf nifer o eiriau 'ei' i'r plant bob tro.
14. Sylweddolaf bod angen ymatebion gadarn ar y plant.
15. Roedd yn rhaid i'r plant cael atebion gywir o'i blaenau.

Cyfieithwch!

Cyfieithwch y brawddegau hyn:

1. I explained the focus of the lesson.
2. Musical terminology was introduced to the class.
3. I felt that the work needed development.
4. A number of questions were asked by the students.
5. The task was presented to the class.
6. I taught a cross-curricular lesson.
7. The books were discussed in detail.
8. I collected information every lesson.
9. The main points were emphasised in the lesson.
10. I set a variety of tasks in the lesson.

Mae'n amser i ni chwarae!





Cwestiynau...

Nod y sesiwn ...

- Adolygu
- Dysgu sut i ofyn ac ateb cwestiwn yn gywir

Cwestiynau?

Mae dau brif fath o gwestiwn ...

cwestiwn caeëdig

dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib

cwestiwn agored

amrywiaeth o atebion posib

Cwestiynau Caeëdig ...

Er mai dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib i gwestiwn caeëdig, mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg

Oes
Nac oes

Ydy
Nac ydy

Do
Naddo

Oedd
Nac oedd

Ie
Nage

Cei
Na chei

Baswn
Na faswn

Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Bydd cliw yn y cwestiwn fel arfer!

Oes car gennyt ti? Oes / Nac oes

Ydy e'n mynd heno? Ydy / Nac Ydy

Oeddet ti'n disgwyl ennill? Oeddwn / Nac oeddwn

Fyddi di'n gorffen am 3? Byddaf / Na fyddaf

Est ti i'r llyfrgell ddoe? Do / Naddo

I'r llyfrgell est ti ddoe? Ie / Nage



Ffurio cwestiwn caeëdig – oes neu ydy?

Oes > ffurfiau amhendant

Is there a...?

Are there any...?

Oes llyfr ar y bwrdd?

Oes pensiliau yn y bocs?

Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant


Is (the)...?

Are (the) ...?

Ydy John yn absennol?

Ydy'r llyfr ar y bwrdd?

ATEBION – **Oes / Nac oes** neu **Ydy / Nac ydy**



- Quizlet

Ymarfer ...

**Gwaith Pâr – Gofynnwch 5
cwestiwn caeëdig i'ch gilydd –
cofiwch eu hateb yn gywir!**

**Meddyliwch am 5 cwestiwn
caeëdig i'w gofyn ar ddechrau'r
bore neu'r prynhawn yn eich
dosbarthiadau. Sut gallwch chi
sicrhau bod y plant yn eu hateb yn
gywir?**

Sawl a Faint?

Ffurio'r cwestiwn ...

Sawl gydag enw unigol – Sawl plentyn sydd yn y dosbarth?

Faint gydag enw lluosog, ond cofiwch yr 'o' a'r treigladau!

Faint o blant sydd yn y dosbarth?

Ateb y cwestiwn ...

Gallwn ateb y ddau gwestiwn trwy roi rhif yn lle faint/sawl ...

Sawl plentyn sydd yn y dosbarth? Naw plentyn sydd yn y dosbarth.

Faint o blant sydd yn y dosbarth? Naw o blant sydd yn y dosbarth.

Cwestiynau Agored

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion. Byddan nhw'n cychwyn gyda'r geiriau gofynnol hyn ...

Pa...?

Ble...?

Sut...?

Beth...?

Pwy...?

Pryd..?

Faint...?

Pam...?

Y treigladau ...

Sut + berf		Sut taloch chi am y llyfrau?
Sut + enw	Treiglad meddal	Sut gyfrifiadur yw e?
Pryd + berf		Pryd cyrhaeddodd nhw?
Ble + berf		Ble gadawaist ti dy got?
Beth + berf	Treiglad meddal	Beth ddywedodd y rhiant?
Faint + berf	Treiglad meddal	Faint dalon nhw?
Pwy + berf	Treiglad meddal	Pwy fwytodd y cinio?
Pa + enw	Treiglad meddal	Pa lyfrau ysgrifennodd hi?
Pa + enw + berf	Treiglad meddal	Pa lyfrau ddarllenaist ti?
P'un + berf	Treiglad meddal	P'un brynoch chi?
Pam		Pam dest ti i'r ysgol?

Y Gorffennol

- Rhaid treiglo'n feddal wrth ofyn cwestiwn sy'n defnyddio berf gryno yn y gorffennol e.e.
- Ddarllenodd e'r llyfr?
- Welodd e'r rhaglen?
- Dderbyniodd hi'r sefyllfa?
- Ateb: Do/Naddo

Y Gorffennol

- Os ydych am fod yn fwy ffurfiol, rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a'
- A ddarllenodd e'r llyfr?
- A welodd e'r rhaglen?
- A dderbyniodd hi'r sefyllfa?
- Do/Naddo
- Mae'r treigladd yn aros!

Gêm fwrdd



Trafod llun

Dewiswch lun. Mewn grŵp, rhaid i chi gymryd eich tro i chwarae rôl yr athro/awes a'r disgyblion. Rhaid i chi drafod y llun/ gan ofyn cwestiynau i'r plant amdano – o leiaf 5 cwestiwn gwahanol (rhai caeëdig a rhai agored).

Pa?

Beth?

Faint?

Pryd?

Sut?

Pam?

Sawl?

Pryd?

Ydy?


Pwy?

Ble?

Oes?

Gêm gadwyn

Paratowch gêm gadwyn er mwyn ceisio cael eich disbgyblion i ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau yn gywir yn Gymraeg. Ystyriwch sut y gallwch wahaniaethu o fewn y gêm. Dylech gynnwys 10-15 cwestiwn ac ateb.



- Kahoot!

Ymarfer – Ble mae'r treigladau?

Gan ddefnyddio *lliwiau* neu siapiau gwahanol tynnwch sylw at bob treigladau meddal, trwynol a llaes yn y darn hwn. Ceisiwch esbonio pam eu bod nhw yno.

Wythnos nesaf, bydd bwyty newydd yn agor ei ddrysau yn fy nhref enedigol. Dim ond cynnyrch lleol gorau fydd yn cael ei goginio yno yn ôl y rheolwraig. mae hi'n awyddus i gadw'r prisiau mor isel â phosib, ond bydd hyn yn dibynnu ar ei chwsmeriaid. Os aiff digon yno, bydd y prisiau yn fwy rhesymol. Yn fy marn i, mae cynnig cynnyrch lleol organig yn sicr o ddenu oherwydd y dyddiau hyn, mae pobl yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd a'r pellter y mae'r bwyd wedi teithio.



TAR Cynradd19.03.18

Egwyddorion sillafu

Nia Cole Jones

Sillafu

Pa lythrennau sy'n dyblu?



DYMA'R **UNIG** LYTHRENNAU SY'N DYBLU YN Y GYMRAEG

Rheol 1

- ‘nn’ ac ‘rr’ mewn geiriau unsill.

Un rheswm yn unig > osgoi amwysedd:

(gan ddefnyddio geiriadur – darganfyddwch ystyron y geiriau hyn)

yn _____

dyn _____

myr _____

yr _____

ynn _____

dynn _____

myrr _____

yrr _____

Rheol 2

- Y GOBEN - GWAHANIAETHU

'n'	'nn'	'r'	'rr'
canu	cannu	tori	torri
cynydd	cynnydd	tyrau	tyrrau
gwanaf	gwannaf		
gynau	gynnau		
tanau	tannau		
tonau	tonnau		

Rheol 2

- Y GOBEN – HYD Y LLAFARIAD
- Os yw llafariad gair unsill sy'n gorffen gydag 'n' neu 'r' yn FYR, bydd dwy 'n' neu 'r' yn y goben:

pen	————→	pennau
rhan	————→	rhannau
tor	————→	torri
twr	————→	tyrru

Rheol 3

- Mae “n” yn dyblu ar ôl **an**

an + t = annh **an + tebyg = annhebyg**

an + d = ann **an + dymunol = annymunol**

an + n = ann **an + naturiol = annaturiol**

OND

- **an + tr = anhr**
- e.e. an + trefn = **anhrefn**

Rheol 4- *Anti Ann*



- Mae'r “n” yn dyblu wrth ychwanegu sillaf at eiriau sy'n gorffen gyda **-nt**:

llwyddiant	————→	llwyddiannau;
peiriant	————→	peiriannau;
diwylliant	————→	diwylliannol
dant	————→	dannedd
cant	————→	cannoedd
tant	————→	tannau
methiant	————→	methiannau
punt	————→	punnoedd

Rheol 5

- Mae'r “**n**” yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda **-en** neu **-yn**:

llythyren	————→	llythre nn au
llyfryn	————→	llyfry nn au
dogfen	————→	dogfe nn au
offeryn	————→	offery nn au

*Mae **emyn**, **gwenyn** a **telyn** yn eithriadau.

Rheol 6

Nid yw “**n**” yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda **-iwn, -ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:


cwestiwn	————→	cwesti n au	————→	cwesti n u
ffasiwn	————→	ffasi n au	————→	ffasi n ol
fersiwn	————→	fersi n au		

Rheol 7

Nid yw “n” yn dyblu o flaen y terfyniadau
-wyr, -ion, -iad

diflannu	————→	diflaniad
offerynnau	————→	offerynwyr
gwynnu	————→	gwynion
cwr	————→	cyrion
gyrru	————→	gyrwyr

Ydy'r geiriau hyn yn gywir?



- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi
ddweud pam?

Pa eiriau sy'n anghywir?

- anfon
- torrodd
- ysgrifennyddes
- carrio
- emynnau
- ennillodd
- tarran
- byrach
- penderfynu
- prynnu
- anhebygol
- barrug
- gofynodd
- pentyru
- cylchgronau
- gyrru

Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?




Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrrwr	Cwestiwn

Dewiswch y ffurfiau cywir ...



1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o
(doriadau/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi r penderfyniad
(gwestiynnu/gwestiynu)
3. Mae'r sefyllfa yn (anheg/annheg)
3. Wyt ti wedi dod o hyd i'r?
(cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

‘i’ neu ‘u’??



‘o’ yng nghanol berfenw = ‘i’ ar y diwedd, e.e. colli, pori

‘a’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. canu, taranu

‘y’ neu ‘w’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. cysgu, chwynnu

‘w’ yn agos at ddiwedd berfenw = ‘i’ yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag u, ac enwau lluosog yn gorffen gydag i, e.e. rhestu (*to list*), rhestru (*lists*)

Ymarferion adolygu ...

Ymarferion Papur – cywiro paragraffau

Ymarferion ar-lein

http://www.canolfanpeniarth.org/cywirdeb_iaith/

Ymarferion ar-lein

<http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/tasgau/index.html>

Tystysgrif Sgiliau Iaith *2019 – 2020*



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG





Rhagoriaith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Tiwtoriaid

Eleri Powell

eleri.powell@pcydd.ac.uk

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Yr Aseu



**Y Cyflwyniad
Llafar
50%**

**Dechrau Chwefror 2020
(Dyddiad i'w gadarnhau)**



**Aseiad
Ysgrifenedig
50%**

6ed o Fai 2020

Graddau

GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Mae dwy ran i'r Dystysgrif, sef y Cyflwyniad Llafar a'r Arholiad Ysgrifenedig.

Mae pedwar canlyniad posibl ar gyfer y Dystysgrif:

- ▶ Rhagoriaeth
- ▶ Clod
- ▶ Llwyddo
- ▶ Methu.

Fel arfer, y trothwy llwyddo fydd 50% i bob cydran, sef y cyflwyniad llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Gall yr union drothwyon ar gyfer y gwahanol raddau newid wrth i'r asesiadau gael eu dyfarnu.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn marc allan o 100 ar gyfer y ddwy gydran. Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.

Y Cyflwyniad Llafar

1. Y CYFLWYNIAD LLAFAR

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau eu cyflwyniadau llafar rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan yr arholwr. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Atodiad A

Meini Prawf – Cyflwyniad Llafar

Dull cyflwyno	20
Ystod cystrawennau a geirfa	20
Cynnwys a threfn y cyflwyniad	20
Ymateb i gwestiynau	20
Cywirdeb	10
Deunydd gweledol	10
Cyfanswm:	100

Enghreifftiau o gyflwyniadau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol



<https://llyfrgell.porth.ac.uk/Default.aspx?catid=391>

10 Rheol Aur



<https://sway.office.com/8izgUqOR2wlsKAUs?ref=Link&loc=play>

Cyn dechrau eich cyflwyniad bydd angen i chi ddweud eich:

- Enw llawn
- Dyddiad Geni
- Rhif Aelodaeth Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Trafodwch destunau posib i'ch cyflwyniad...





**Asesiad
Ysgrifenedig
50%**

6ed o Fai 2020

TASG 1: Cywiro

TASG 2: Trawsieithu.

TASG 3: Ysgrifennu Rhydd





Cysgliad



Atodiad B

TASG 1: Cywiro	20 marc
TASG 2: Trawsieithu.	40 marc
TASG 3: Ysgrifennu Rhydd	40 marc
Cyfanswm	100

Tystysgrif Genedlaethol Sgiliau Iaith Gymraeg

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Papur Enghreifftiol 1

Gosodwch eich Rhif Aelodaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y blwch isod:

Rhif Aelodaeth:

TASG 1: CYWIRO (Mae'r dasg hon yn werth 20% o'r marciau) Mae **2 wall ym mhob brawddeg** yn y darn isod, a chyfanswm o 22 o wallau. Cywirwch nhw, gyda chymorth Cysill. **Nid** oes angen i chi newid cywair neu arddull y darn o gwbl, dim ond cywiro'r gwallau iaith sydd ynddo. Rhowch eich cywiriadau mewn **print trwm**.





DARN I'W GYWIRO

Mae llai a lai o fyfyrwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd o'i astudiaethau rhwng yr ysgol a'r coleg. Maent yn fwy tebygol i weithio, er mwyn ennill prês. Mae hynny'n drueni, gan fod y profiad o fynd dramor neu weithio am elusen ym mhwysig iawn. Dylau pobl ifanc fanteisio ar bob cyfle i ddod i adnabod y byd y tu allan eu milltir sgwâr.

Mae cyfleoedd am gael, os i chi'n fodlon chwilio amdanyn nhw. Er enghraifft, mae VSO yn dal yn cynnig profiadau i bobl rhwng 18 a 25 oed. Ewch yw gwefan nhw i weld beth sy'n ei gael ei gynnig. Does dim angen cymhwysterau, ac mae'n bosibl cael hyffordiant, cyn mynd. Telir costau teithio, a threfnu'r llety i'r gwirfoddolwyr gan VSO, mewn gwledydd tlotaf y byd.

Ar y llaw arall, rhaid i fyfyrwyr meddwl am eu cynnal eu hunan. Felly gweithio yn ystod y gwyliau, neu am flwyddyn gyfan, yw'r unig dewis ambell waeth.

Llyfrau Defnyddiol



Gloywi Iaith

- Adnoddau defnyddiol

Adnoddau Y Porth

[https://adnoddau.porth.ac.uk/webapps/blackboard/content/listContent.jsp?course_id= 3056 1&content id= 81110 1](https://adnoddau.porth.ac.uk/webapps/blackboard/content/listContent.jsp?course_id=3056_1&content_id=81110_1)

- www.geiriadur.net

- **Geiriadur Prifysgol Cymru**

<http://welsh-dictionary.ac.uk/gpc/gpc.html>

Geiriadur yr Academi

- <http://www.geiriaduracademi.org>

Tasg 2 – Trawsieithu

- **Beth yw trawsieithu?**



TRAWSIEITHU

Beth yw trawsieithu?

Sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall, e.e.:

Darllen yn Saesneg ond yna'n ysgrifennu yn Gymraeg

Gwrando yn Saesneg ond yna'n siarad yn Gymraeg

Mae'r term wedi ei gyfieithu i'r Saesneg – 'translanguaging'

Testun ymchwil Cen Williams ym Mangor yn yr 1980

Trawsieithu

Bathwyd y term i ddisgrifio proses clywed gwybodaeth mewn un iaith, a'i thrafod/ysgrifennu mewn iaith arall

Ymchwil yn edrych ar strategaethau i helpu dysgwyr i ddefnyddio dwy iaith mewn gwrs.

Trawsieithu



Beth yw trawsieithu a sut mae ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf yw sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall e.e.


Darllen yn Saesneg → Ysgrifennu yn Gymraeg /
Gwranddo yn Saesneg → Siarad yn Gymraeg

CYFIEITHU

Rhaid trosglwyddo'r testun yn ei gyfanrwydd o un iaith i'r llall.

TRAWSIEITHU

Rhaid trosglwyddo ystyr y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.



Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng **trawsieithu** a **chyfieithu**.

Wrth gyfieithu, rhaid trosglwyddo'r **testun yn ei gyfanrwydd** o un iaith i'r llall.

Wrth **DRAWSIEITHU**, rhaid trsoglwyyddo **YSTYR** y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Wrth **drawsieithu** yn ysgrifenedig:

Rydym yn

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)
- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl

- **DARLLEN** darn yn sydyn ac yn arwynebol er mwyn cael syniad o'r cynnwys.
- Nodi'r pwyntiau yr ydych wedi sylwi arnynt
- Darllen y darn yn fanwl
- Beth yw prif bwynt y darn?
- Beth yw'r is-bwyntiau?
- Gwnewch bwyntiau bwled neu fap meddwl
- Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn. Pediwch â chyfieithu air am air. Defnyddiwch eich geiriau eich hun

Crynowch gynnwys y darn i draean y gwreiddiol gan gofio

- Peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
- Dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
- Osgoi ailadrodd
- Defnyddio eich geiriau eich hun
- Cadw'r brawddegau yn fyr

Dyma gamau penodol i'w dilyn wrth i chi fynd ati i drawsieithu:

1. Darllenwch y darn yn fanwl gan wneud hynny sawl gwaith
2. Beth yw prif bwynt y darn?
3. Beth yw'r is-bwyntiau? Gwnewch restr ohonynt.
4. Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn.
5. Crynhowch gynnwys y darn (i draean y gwreiddiol) gan gofio:
 - i. defnyddio eich geiriau eich hun
 - ii. cadw'r brawddegau'n weddol fyr
 - iii. peidio a chynnwys eich barn
 - iv. peidio a chynnwys enghreifftiau oni bai eu bod yn hanfodol
 - v. osgoi ailadrodd.
6. Cofiwch wirio eich sillafu, cenedl enwau, treigladau a threfn eich brawddegau. Mae'n bwysig eich bod yn ysgrifennu'r darn yn gywir ac yn naturiol gan osgoi dilyn trefn y brawddegau Saesneg.
7. Defnyddiwch Cysill i wirio'ch gwaith ar y diwedd.

Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.

Rhaid cofio ysgrifennu'n gryno felly!

Yr Amhersonol

Mae ffurfiau'r amhersonol yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau ysgrifenedig ffurfiol. Mae'r amhersonol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgrifennu cofnodion.

Dyma'r terfyniadau:

-ir	y presennol	e.e.	dywedir
-wyd	y gorffennol	e.e.	ysgrifennwyd
-id	yr amherffaith a'r amhenodol	e.e.	edrychid
-er	y gorchmynnol	e.e.	sylwer

- Nid yw'r terfyniadau hyn yn dweud **pwyl** sy'n gweithredu.
- Mae'r gweithredwr yn cael ei nodi ar ôl **gan**, e.e.
Ysgrifennwyd dau lythyr gan Efa.
- Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.
Cyhoeddwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Mae **ni** neu **nid** yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal, e.e.
Ni lwyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.
Ni **chyhoeddir** y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.

Dyma ambell ffurf afreolaidd:

	Presennol	Gorffennol
mynd	eir	aed, aethpwyd
dod	deuir	daethpwyd
cael	ceir*	caed, cafwyd
gwneud	gwneir	gwnaed, gwnaethpwyd

*Mae **ceir** yn gallu cael ei ddefnyddio yn lle **mae yna**, e.e.

Ceir nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.

Mae yna nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.

Enghraifft (Papur 1)

Transcript of speech by Vice Chancellor Adrian Thomas at the Faculty of Arts Graduation Ceremony, 20 June, held in O'Reilly Hall, St John's University.

Dear colleagues, friends, parents and graduands.

It's my pleasure to welcome you to this wonderful hall to celebrate the achievement of our students, graduating after three years of hard work in the Arts Faculty of our university. It's a significant year for us at St John's of course, celebrating our seventy fifth anniversary. There have been a number of events to mark the occasion, as many of you will know, and this graduation ceremony will be one of the most important, giving us an opportunity to reflect and look forward. It would have been a very different ceremony seventy five years ago, when that first small cohort of students graduated.

We may be a small university but our achievements are many, and we have contributed to many different fields of study. Very recently, our Faculty of Science featured on a BBC news item because of the pioneering work done in tracking the spread of the Zika virus in the developing world. The virus has been identified as an international health emergency by the World Health Organisation, and the research completed here has contributed to our understanding of how this virus works. Other disciplines are also well represented. I'm proud to welcome one of our alumni, Mrs Erin Williams, to receive an honorary doctorate for her work in the field of child psychology. She has published several articles on dyslexia, cognitive development and multilingualism and is in demand as a conference speaker around the world. Being a smaller university is no hindrance to success in any field. I would also argue that being a smaller university greatly enhances the undergraduate experience. I was heartened that the National Student Survey ranked St John's as the friendliest of all UK universities. Excellence in academic research goes hand in hand with good teaching and an atmosphere where students are encouraged and supported.

For some of you, this is the culmination and end of three years of study, but many of you will be embarking on post-graduate studies next September. The proportion of graduates staying on to work towards MA, MSc or full doctorate studies at St John's is one of the highest in the UK; at least 20% of graduates have expressed this as their intention this year. This in itself is a reflection of the esteem in which the University is held by its students, and of the dedication of the lecturing staff. I wish you well in your future studies, and for those leaving St John's, I wish you well in your future careers. Thank you, and congratulations once again.

Meini Prawf

Rhan 2 – Trawsieithu 40 marc

Addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen testun ysgrifenedig Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol, e.e. ysgrifennu crynodeb o destun Saesneg ar gyfer cynulleidfa benodol.

Asesir gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu'n gywir, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa, ac i lunio testun terfynol sy'n briodol i'r diben a ddisgrifir yn y dasg. Yn ogystal, bydd nifer o bwyntiau allweddol yn y testun gwreiddiol, ac asesir gallu'r ymgeisydd i gynnwys y pwyntiau priodol yn y trawsieithiad.

Cynllun Marcio
(Trawsieithu)

40 marc

Y2.1	Cywirdeb	10 marc
	9-10	ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau yn unig.
	7-8	ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.
	5-6	ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.
	3-4	ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.
	0-2	y testun yn cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.
Y2.2	Ystod	10 marc
	9-10	defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.
	7-8	defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.
	5-6	defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.
	3-4	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.
	0-2	defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.

Y2.2	Ystod 10 marc 9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg. 7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg. 5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg. 3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun. 0-2 defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.
-------------	---

Y2.4	Pwyntiau allweddol 10 marc Mae 5 o bwyntiau allweddol y mae angen i'r ymgeisydd eu cynnwys yn y trawsieithiad, a fydd yn dangos eu bod wedi deall y testun gwreiddiol, Saesneg. Rhoddir 2 farc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn rhannol neu'n lled briodol.
-------------	--

Ateb enghreifftiol: (Papur 1)

Pen-blwydd Arbennig a Llwyddiant Mawr

Dathlwyd pen-blwydd y Brifysgol yn 75 oed mewn araith gan yr Is-Ganghellor Adrian Thomas yn Seremoni Raddio Cyfadran y Celfyddydau yn Neuadd O'Reilly ym mis Mehefin.

Soniodd hefyd am ymchwil nodedig a wnaed gan y brifysgol ar ledaeniad y firws Zika. Roedd y gwaith hwn gan Gyfadran y Gwyddorau yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Soniodd hefyd am waith y gyn-fyfyrwraig, Erin Williams ym maes seicoleg plant a datgelodd fod y brifysgol yn dyfarnu gradd er anrhydedd iddi am y gwaith hwn.

Roedd yr Is-ganghellor yn hynod falch bod y brifysgol wedi cyrraedd y brig yng nghategori Prifysgol Mwyaf Cyfeillgar y Flwyddyn mewn arolwg cenedlaethol ar farn myfyrwyr.

I gloi, mynegodd falchder yn y ffaith bod canran uchel o'r myfyrwyr yn bwriadu mynd yn eu blaen i ddilyn cyrsiau ôl-radd y flwyddyn nesaf.

(136 o eiriau)

Sut gellir defnyddio trawsieithu i hybu'r Gymraeg mewn dosbarth lle mai'r Gymraeg yw'r ail iaith?

Gwyliwch y clip

'What is translanguaging, really?'

<https://www.youtube.com/watch?v=iNOtmn2UTzI>



Tasg

Mewn grŵpiau meddyliwch am weithgaredd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd disgyblion yn y dosbarth yn defnyddio'r sgil Trawsieithu.


Byddwch chi'n cyflwyno eich syniad i weddill y dosbarth.



TYSTYSGRIF SGILIAU IAITH

Cwestiwn 3

Ysgrifennu'n Rhydd



Tystysgrif
Sgiliau
Iaith Gymraeg



Y rheswm pam fod cywirdeb yn cyfrif yw am ei fod yn gyfrwng EGLURDEB

Mae darn gwallus yn anodd iawn i'w ddeall.

Nid yw felly'n eglur.

Nid yw'n cyfathrebu!

Cyfathrebu – PRIF bwrpas UNRHYW ddarn
ysgrifenedig!



BYDDWCH YN GRYNNO.

- Yn dilyn y ffaith bod pob un beirniad theatr wedi mynd ati i ddadansoddi'r testun trwy fabwysiadu safbwyntiau gwahanol, ni fu modd dod i gytundeb ar y mater (28 gair)
- Gan i'r beirniaid theatr fabwysiadu safbwyntiau gwahanol ar y testun, ni chytunwyd ar y mater (15 gair)

TASG 3: YSGRIFENNU RHYDD (Mae'r dasg hon yn werth 40% o'r marciau)

Dylech ysgrifennu **rhwng 280 a 330 gair**. Byddwch yn colli marciau am y dasg hon os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir. **Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich darn ysgrifennu.**

Mae eich coleg/prifysgol wedi gofyn i chi ysgrifennu darn i'w roi ar eu gwefan nhw yn sôn am eich profiadau yn astudio yno. Dylech chi sôn am yr isod (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- eich rhesymau dros ddewis y cwrs a'r coleg
- eich atgofion o gyrraedd y coleg
- manteision ac anfanteision y coleg
- y peth mwyaf heriol am y cwrs
- eich cyngor i ddarpar fyfyrwyr

Nodwch deitl eich cwrs cyn dechrau ar y darn ysgrifennu:

	Rhan 3 – Ysgrifennu rhydd	40 marc
Y3.1	Cywirdeb	10 marc
	9-10	ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau'n unig.
	7-8	ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.
	5-6	ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.
	3-4	ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.
	0-2	y testun y cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.
Y3.2	Ystod	10 marc
	9-10	defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.
	7-8	defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.
	5-6	defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.
	3-4	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.
	0-2	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.
Y3.3	Cynnwys a threfn	10 marc
	9-10	y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn ddeallus; y darn yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol.
	7-8	y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod yr ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn dda; y darn yn drefnus ar y cyfan.
	5-6	y cynnwys yn foddhaol a'r ymgeisydd yn cyflawni'r dasg yn ddealladwy ar y cyfan; y darn yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol.
	3-4	y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y darn yn anhrefnus i raddau helaeth.
	0-2	y cynnwys yn anfoddhaol; heb ôl trefn na strwythur amlwg.
Y3.4	Ateb y gofynion	10 marc
	Mae 5 o ofynion ym mhob sbardun. Rhoddir 2 farc am bob un o'r gofynion a atebir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob un o'r gofynion a atebir yn rhannol neu'n lled briodol.	

Papur 1

Ateb enghreifftiol:

Nid ar chwarae bach y mae penderfynu ar goleg na chwrs. Mae'n un o'r penderfyniadau mwyaf tyngedfennol a wnewch chi.

Wedi pwyso a mesur, dilyn cwrs gradd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Aneirin Bevan aeth â 'mryd i. Roedd sawl rheswm dros y penderfyniad hwn. Roedd y modiwlau yn apelio, y campws yn un hwylus a braf â chyfleusterau heb eu hail, modiwlau cyfrwng Cymraeg niferus ar gael a staff dysgu sydd ag enw da ledled y byd.

Oherwydd bod yr adran yn un sy'n cael ei hystyried ymhlith rhai disgleiriaf y Deyrnas Unedig, mae'n anodd cael lle yma. Dyma oedd yn fy mhoeni fwyaf wrth ymgeisio am le. Yn ffodus, cefais i ganlyniadau digon da yn fy arholiadau Safon Uwch i ennill lle. Golyga hyn, wrth gwrs, fod llawer iawn o fyfyrwyr abl iawn yma, ac roedd hyn yn boen ar fy meddwl wrth gyrraedd y coleg. A fyddwn i'n gallu cyrraedd safon y myfyrwyr disglair hyn? Ai fi fyddai'r gwannaf yn eu plith? Roeddwn i ar bigau'r drain am yr wythnosau cyntaf, rhaid cyfaddef. Ond peth iach yw cystadleuaeth, ac rwyf yn sicr bod astudio gyda myfyrwyr galluog iawn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar fy ngwaith.

Mae'r cwrs yn un heriol, ac mae cwblhau'r holl aseiniadau yn brydlon yn gallu bod yn anodd. Ond mawr fydd y wobr yn y pen draw, pan fydd gennyf radd (dda, gobeithio!) o un o adrannau Cyfraith gorau'r wlad. A byddaf yn gallu gweithio yn y ddwy iaith, y Gymraeg a'r Saesneg, wrth gwrs.

Byddwn yn annog unrhyw un sydd â'i fryd ar yrfa yn y Gyfraith i ymgeisio am le yma. Paratowch yn ofalus ar gyfer eich cyfweliad, a chredwch ynoch chi'ch hun. Os cewch eich derbyn yma, bydd gyda chi sawl blwyddyn o waith caled o'ch blaen. Ond os cofiwch sicrhau cydbwysedd rhwng eich bywyd cymdeithasol a'ch astudiaethau, mynychu pob darlith a chyflwyno'ch aseiniadau'n brydlon, byddwch yn siŵr o lwyddo.

Papur Arholiad 2019

3. Ysgrifennu Rhydd

[40]

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch i berswadio cyflogwyr fod yr iaith Gymraeg yn ddefnyddiol yn y gweithle. Gofynnwyd i chi ysgrifennu darn i'w roi mewn taflen a anfonir at gyflogwyr i gefnogi'r ymgyrch.

Ysgrifennwch y darn gan gyfeirio at y pwyntiau isod, (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- eich cefndir ieithyddol;
- y maes yr hoffech weithio ynddo;
- y manteision i **chi** o allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Un** enghraifft o'ch profiad lle bu sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol;
- y manteision i **gyflogwyr** o benodi staff â sgiliau Cymraeg.